# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## OFFFERYN LLYWODRAETHU

### Aelodaeth y Gorfforaeth

**2.**—(1) Rhaid i'r Gorfforaeth gynnwys—

(a) hyd at saith aelod sydd, neu a fu, yn ymwneud â neu'n gyflogedig mewn busnes, diwydiant neu unrhyw broffesiwn neu unrhyw faes arall o waith sy'n berthnasol i weithgareddau'r sefydliad (a gelwir hwy'n "aelodau busnes");

(b) hyd at dri aelod a gyfetholwyd gan aelodau'r Gorfforaeth (a gelwir hwy'n "aelodau cyfetholedig");

(c) o leiaf un a hyd at dri aelod sy'n staff wedi'u cyflogi gan y sefydliad ac a enwebwyd gan staff y sefydliad (a gelwir hwy'n "aelodau staff"). Os oes mwy nag un aelod staff, rhaid i o leiaf un aelod staff fod wedi'i gyflogi fel aelod o'r staff addysgu, ac wedi'i ethol a'i enwebu ganddynt a rhaid i o leiaf un aelod staff fod wedi'i gyflogi fel aelod arall o staff y sefydliad ac wedi'i ethol a'i enwebu ganddynt;

(ch) o leiaf un a hyd at dri aelod sy'n fyfyrwyr yn y sefydliad ac sydd wedi'u hethol a'u henwebu gan fyfyrwyr y sefydliad neu (fel y caiff y Gorfforaeth benderfynu) wedi'u hethol a'u henwebu gan gymdeithas gydnabyddedig sy'n cynrychioli myfyrwyr y sefydliad (a gelwir hwy'n "aelodau myfyrwyr");

(d) hyd at ddau aelod sy'n rhieni i fyfyrwyr o dan 19 mlwydd oed sy'n mynychu'r sefydliad, sydd wedi'u hethol a'u henwebu gan rieni eraill o'r fath neu (fel y caiff y Gorfforaeth benderfynu) wedi'u hethol a'u henwebu gan gymdeithas gydnabyddedig sy'n cynrychioli rhieni o'r fath (a gelwir hwy'n "aelodau rhieni");

(dd) o leiaf un a hyd at dri aelod a enwebwyd gan awdurdodau lleol a bennir gan y Gorfforaeth (a gelwir hwy'n "aelodau awdurdod lleol");

(e) o leiaf un a hyd at dri aelod a enwebwyd gan gorff neu gyrff cymunedol yr ymddengys i'r aelodau eraill eu bod yn cynrychioli buddiannau adran o'r gymuned leol a enwebwyd gan yr aelodau eraill (a gelwir hwy'n "aelodau cymunedol") (at ddibenion y paragraff hwn mae "corff cymunedol" yn cynnwys unrhyw gymdeithas nad yw'n cael ei rhedeg er elw);

(f) Pennaeth y sefydliad (onid yw'r Pennaeth yn dewis peidio â bod yn aelod); ac

(ff) hyd at ddau aelod a benodwyd gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau o dan adran 39 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**1**) (a gelwir hwy'n "Aelodau a Benodwyd gan Weinidogion Cymru").

(2) Rhaid i unrhyw gwestiwn parthed a yw person yn gymwys yn unol ag is-baragraff (1) i'w benodi'n aelod i unrhyw gategori gael ei benderfynu gan yr awdurdod penodi perthnasol fel a bennir ym mharagraff 4.

(**1**) 2000 p.21; diwygiwyd adran 39 gan adran 47 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1) a pharagraffau 1-3 o'r Atodlen i'r Mesur hwnnw.